OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1129

# Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002

**Costau a dynnir gan gynghorau cymuned newydd Corneli a'r Pîl**

**5.**—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr "yr awdurdod bilio arfaethedig" ("*the prospective billing authority*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y cymunedau newydd" ("*the new communities*") yw cynghorau cymunedau newydd Corneli a'r Pîl;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (**1**);

ystyr "y flwyddyn ariannol berthnasol" ("*the relevant financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2002; ac

ystyr "Rheoliadau 1995" ("*the 1995 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995 (**2**).

(2) Bydd i adran 41 Deddf 1992 (cyhoeddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) effaith—

(a) mewn perthynas â chynghorau'r cymunedau newydd, yr awdurdod bilio arfaethedig a'r flwyddyn ariannol berthnasol; a

(b) mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau ar 30 Mawrth 2002 ac sy'n dod i ben yn union cyn y dyddiad i gynghorau cymunedau newydd Corneli a'r Pîl gyhoeddi praeseptau ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol,

gan roi'r is-adran ganlynol yn lle is-adran (3)—

> "(3) In making calculations in accordance wth section 32 above (originally or by way of substitute) the billing authority shall take into account for the purposes of its estimate under section 32(2) (a) above an amount equal to that specified in article 5(6) of the Bridgend (Cynffig, Cornelly and Pyle Communities) (Electoral Changes) Order 2002.".

(3) Mewn perthynas â chyngorau'r cymunedau newydd, yr awdurdod bilio arfaethedig a'r flwyddyn ariannol berthnasol—

(a) bydd i adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo angenion cyllidol gan awdurdodau bilio) effaith ond gan hepgor is-adran (6);

(b) bydd i adran 41(4) o Ddeddf 1992 effaith on gan roi'r geiriau "October in the financial year for which it is issued" yn lle'r geiriau "March in the financial year preceding that for which it is issued"; ac

(c) bydd y cyfeiriad yn adran 54(4) Deddf 1992 (pwer i ddynodi awdurdodau) at braesept a ragwelir ei osod gan awdurdod bilio yn unol â rheoliadau o dan adran 41 Deddf 1992 yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y swm a bennir ym mharagraff (6) o'r erthygl hon.

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) O.S. 1995/2562.

(4) Mewn perthynas â'r swm sy'n cael ei gymryd i ystyriaeth at ddibenion adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992 yn rhinwedd paragraff (2) uchod, bydd i Bennod III o Ran I o Ddeddf 1992 (gosod y dreth gyngor) effaith fel pe bai—

(a) y swm yn eitem sy'n cael ei chrybwyll yn darn 35(1) Deddf 1992 (eitemau arbennig) sy'n ymwneud â'r cymunedau newydd; a

(b) ardal yr awdurdod bilio arfaethedig wedi'i chynnwys yn y cymunedau newydd.

(5) Bydd cynghorau cymunedau newydd Corneli a'r Pîl yn gwneud y cyfrifiadau sydd eu hangen o dan adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo anghenion cyllidol gan awdurdodau bilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol er mwyn sichrau nad yw'r swm a gyfrifir fel eu hangenion cyllidol ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy na'r swm a bennir ym mharagraff (6) isod.

(6) Y swm a bennir yn y paragraff hwn mewn perthynas â'r naill a'r llall o gymunedau newydd Corneli a'r Pîl yw pymtheng mil o bunnoedd.

(7) Mewn perthynas â chynghorau'r cymunedau newydd, yr awdurdod bilio arfaethedig a'r flwyddyn ariannol berthnasol, bydd i Reoliadau 1995 effaith fel pe bai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth ar drefnlenni taliadau); a

(b) yn is-baragraffau (1), (2) a (3) o baragraff 8 o Ran II o'r Atodlen (rheolau ar gyfer penderfynu trefnlenni rhandaliadau), ym mhob achos yr ail “or” a'r geiriau sy'n dilyn hyd at ddiwedd pob is-baragraff,

wedi'u hepgor.